Grymuso Cymunedau ar gyfer Gwydnwch Diwylliannol drwy'r Gymraeg mewn Chwaraeon

Briff Polisi Hydref 2026

CRYNODEB

Yn y prosiect ymchwil gweithredu cyfranogol hwn, aethpwyd ati i gyd-ddylunio ymyriadau ymarferol drwy 'Labordy Arloesi' cymdeithasol. Roedd y Labordy yn cynnwys dau weithdy diwrnod llawn yn hydref 2025, a 36 o gyfranogwyr wedi mynychu yn sgil cael eu dewis ar sail eu gwybodaeth a'u profiad perthnasol. Y nod oedd dod â grŵp amrywiol o bobl ynghyd oedd â gwahanol rolau ar draws sectorau sy'n ymwneud â chwaraeon a'r Gymraeg. Ffocws y gweithdai oedd defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol mewn gweithgareddau chwaraeon yng nghefn gwlad. Dewiswyd Ynys Môn oherwydd, er bod ganddi gyfran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg o'i chymharu â gweddill Cymru, mae ganddi hefyd gymunedau â chanrannau is o siaradwyr, a chymunedau lle ymddengys bod newid iaith yn digwydd. Nod y prosiect yw mynd i'r afael â her a nodwyd i fod yn flaenoriaeth gan ymarferwyr polisi ac ymchwilwyr; canfu astudiaeth ddiweddar gan Rhian Hodges a Cynog Prys ym Mhrifysgol Bangor fod siaradwyr Cymraeg sy'n ymwneud â chlybiau chwaraeon neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn o gymharu ag eraill.

Trafododd y grŵp y cwestiwn canolog: "Beth fyddai ei angen i gefnogi a chynyddu defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon ar draws cymunedau Ynys Môn?" Yn ystod y ddau ddiwrnod, lluniodd y cyfranogwyr gyfres o gynigion wedi'u cynllunio i gynyddu faint o Gymraeg a ddefnyddir yn gymdeithasol mewn chwaraeon. Yn seiliedig ar y gweithdai a'r cynigion a gyd-gynhyrchwyd gan y cyfranogwyr, rydym yn cynnig yr argymhellion canlynol i lunwyr polisi.

CEFNDIR

Amcanion yr Astudiaeth

Mae'r astudiaeth hon yn rhan o waith ehangach gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar y thema Grymuso Cymunedau ar gyfer Gwydnwch Diwylliannol. Mae'n edrych ar y sefyllfa sydd ohoni o ran defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn y byd chwaraeon ar Ynys Môn, yn ogystal â llunio ymyriadau ymarferol ac arloesol i annog defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau chwaraeon.

Cyd-destun Polisi

Adroddodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg wrth Lywodraeth Cymru fod angen rhoi "sylw penodol i'r maes chwaraeon a hamdden mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uchel" a dylid gwneud "popeth posibl" i sicrhau bod clybiau chwaraeon a hamdden yn gwneud defnydd helaeth o'r Gymraeg (Llywodraeth Cymru 2024:122). Yn ogystal, mae ymchwil diweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg yn tynnu sylw at "botensial neilltuol chwaraeon i fod yn gyfrwng i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc". Felly, mae angen ystyried sut y gellir cefnogi clybiau chwaraeon i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg "wrth gymryd rhan, wrth hyfforddi, ac wrth ddyfarnu a gweinyddu" (Comisiynydd y Gymraeg 2025:5). Ymhellach, mewn astudiaeth ddiweddar o batrymau defnyddio iaith ar Ynys Môn, canfuwyd bod siaradwyr Cymraeg sy'n ymwneud â chlybiau chwaraeon neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn. O ganlyniad, un o argymhellion yr astudiaeth oedd y dylid annog clybiau chwaraeon cymunedol i hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan o'u

gweithgareddau, er mwyn cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ar Ynys Môn (Hodges et al. 2023:5).

Y Sylfaen Dystiolaeth

Cynhaliodd Cymru Wledig LPIP Rural Wales gyfres o weithdai Labordy Arloesi ar y testun *Grymuso Cymunedau ar gyfer Gwydnwch Diwylliannol drwy'r Gymraeg mewn Chwaraeon*, a hyn wedi'i gynllunio er mwyn mynd ati ar y cyd i lunio cynigion arloesol i gefnogi datblygiad economi llesiant yng Nghymru. Daeth y Labordy â 36 o gyfranogwyr ynghyd, a'r rhain wedi'u dewis oherwydd eu gwybodaeth a'u profiad perthnasol, gan gynrychioli awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd dau weithdy diwrnod llawn ym mis Medi a mis Hydref 2025, gan fod yn sail i broses strwythuredig ar gyfer archwilio sefyllfa bresennol y sector, llunio gweledigaeth o ddyfodol dymunol i'r sector, a chyd-ddylunio ymyriadau posibl a allai alluogi'r trawsnewid hwn.

Yn ystod y sesiynau, cyfrannodd y cyfranogwyr hefyd ystod eang o syniadau a mewnwelediadau ychwanegol ynghylch y ffordd orau o ysgogi defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol mewn chwaraeon. Mae'r myfyrdodau hyn yn cynnig mewnwelediad i safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol ar draws y system, gan fod yn sail i helpu'r dadansoddiad a'r camau gweithredu a argymhellir.

PRIF GANFYDDIADAU

Mae defnyddio'r Gymraeg yn amrywio'n sylweddol ar draws lleoliadau chwaraeon gwahanol

Yn ôl cyfranogwyr, er bod rhai clybiau yn defnyddio'r Gymraeg yn rhagweithiol fel iaith arferol neu'n annog ei defnydd ehangach yn fwriadol, mae clybiau eraill sydd â charfanau o allu ieithyddol cymysg yn ei chael hi'n anodd cynnal gweithgareddau chwaraeon a threfnu drwy gyfrwng y Gymraeg, hyd yn oed mewn cyd-destunau lle mae'r mwyafrif sy'n ymwneud â'r clwb yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn arwain at rai clybiau chwaraeon yn troi at y Saesneg i fod yr iaith arferol mewn gweithgareddau, sesiynau, nosweithiau gwobrwyo a llywodraethu o ddydd i ddydd. Mae hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg yn newid i'r Saesneg oherwydd grwpiau ieithyddol cymysg neu ddiffyg hyder yn eu Cymraeg mewn cyd-destun chwaraeon.

Mae rhwystrau strwythurol yn cynnwys prinder hyfforddwyr a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg

Ceir adroddiadau anecdotaidd am brinder hyfforddwyr cymwys, ymddiriedolwyr a swyddogion sy'n siarad Cymraeg ac sydd yn barod, yn gallu ac yn fodlon ymgymryd â'r tasgau sydd eu hangen i redeg clybiau chwaraeon. Nododd y cyfranogwyr fod y Saesneg yn fwy eang ei defnydd mewn rhai chwaraeon, gan arwain at ansicrwydd ynghylch terminoleg ac at ddull anghyson o fabwysiadu a gweithredu polisïau iaith penodol. Cyfeiriodd y cyfranogwyr yn aml at y ffaith mai ychydig iawn o arweiniad neu ofynion a gafwyd gan gyrff llywodraethu ynghylch defnyddio'r Gymraeg a'r camau ymarferol y gellid eu cymryd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau dwyieithog.

Sefyllfaoedd o allu ieithyddol cymysg a rhagdybiaethau yn atgyfnerthu goruchafiaeth y Saesneg

Soniodd y cyfranogwyr am duedd i ystyried chwaraeon fel cyd-destun lle mai'r Saesneg yw'r brif iaith. Soniwyd hefyd am duedd i newid i'r Saesneg er mwyn bod yn 'gwrtais' neu'n 'dderbyniol' mewn sefyllfaoedd lle mae pobl o allu ieithyddol cymysg yn bresennol. Mynegodd rhai hyfforddwyr hefyd eu bod am sicrhau ffocws y tîm ac eglurder negeseuon hyfforddi mewn sefyllfaoedd pan fo'r cyfranogwyr yn gymysg eu gallu iaith. Mynegodd hyfforddwyr bryderon hefyd ynghylch defnyddio'r derminoleg Gymraeg gywir ar gyfer chwaraeon penodol.

Er gwaethaf yr heriau, mae rhai clybiau yn chwilio am atebion ymarferol

Mae rhai darparwyr (megis yr Urdd) yn cynnig sesiynau chwaraeon penodol drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nid yw'r rhain bob amser yn denu digon o gyfranogwyr i fod yn gynaliadwy, ac ystyrir hefyd eu bod yn cystadlu â chlybiau sefydledig. Mae rhai clybiau wedi mabwysiadu polisïau iaith ffurfiol, ond nid yw hyn yn arfer cyffredin ac mae'r ffordd y cânt eu gweithredu yn gallu bod yn anghyson. Mae'r Gymraeg i'w gweld mewn arwyddion, ffurflenni swyddogol, presenoldeb ar y we ac yn y cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol mewn rhai o'r clybiau y mae'r cyfranogwyr yn aelodau ohonynt. Byddai'r rhan fwyaf o gynrychiolwyr y clybiau chwaraeon a gymerodd ran yn y gweithdai yn croesawu cymorth i ddatblygu camau ymarferol i gefnogi defnyddio'r Gymraeg.

ARGYMHELLION – ymyriadau wedi'u cynllunio drwy'r 'Labordai'

Yn seiliedig ar y canfyddiadau sydd wedi'u crynhoi uchod, rydym yn cynnig nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru / awdurdodau lleol, ac fe'u datblygwyd i fod yn ymyriadau addas i'w rhoi ar waith:

Cryfhau defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd mewn clybiau chwaraeon drwy ddatblygu adnoddau ymarferol yn Gymraeg, sy'n benodol i chwaraeon a champau gwahanol, a chefnogi llysgenhadon ar lefel clwb.	**Datblygu adnoddau Cymraeg ar gyfer clybiau chwaraeon:** Gweithio gyda chyrff llywodraethu, clybiau ac ieithyddion i greu cronfa o dermau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol wedi'u teilwra i gampau penodol, er mwyn galluogi siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn ei siarad i ddefnyddio'r iaith yn amgylcheddau cymdeithasol ac anffurfiol y byd chwaraeon. **Cydweithio â sampl o glybiau lleol:** Canfod clybiau sy'n barod i gymryd rhan a chydweithio â nhw i ddatblygu adnoddau a threialu eu defnyddio mewn lleoliadau go iawn, gan helpu i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn ymarferol. **Sefydlu rhwydwaith o 'lysgenhadon' clybiau:** Bydd pob clwb sy'n cymryd rhan yn penodi llysgennad i gyd-ddatblygu deunyddiau, hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn ei glwb, a chysylltu â llysgenhadon eraill i rannu dysgu ac arferion da, er mwyn gallu lledaenu'r rhain yn ehangach yn y dyfodol.
Cyflwyno ac ymgorffori egwyddorion gwydnwch ieithyddol mewn clybiau chwaraeon drwy rymuso hyfforddwyr a swyddogion sy'n hyfedr yn y Gymraeg i'w defnyddio'n fwy cyson ar draws gweithgareddau'r clwb	**Defnyddio egwyddorion hyder ieithyddol yng nghyd-destun clybiau:** Rhoi'r sgiliau a'r hyder i hyfforddwyr a swyddogion clybiau sydd eisoes yn siarad Cymraeg iddynt ddefnyddio'r iaith yn fwy hyderus ac yn amlach yn ystod sesiynau hyfforddi, cyfarfodydd, digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, gan deilwra'r dull i gyd-destun ieithyddol pob clwb. **Cynnal rhaglen o weithdai gwydnwch:** Gweithio gyda sampl o glybiau lleol i gynnal sesiynau strwythuredig sy'n edrych ar arferion da, ac yna cael cyfnod prawf o roi ymddygiadau iaith newydd ar waith ac adolygu eu heffeithiau. Lledaenu'r arferion da a gaiff eu datblygu yn y clybiau peilot cychwynnol. **Cefnogi cyfranogiad dan arweiniad gwirfoddolwyr:** Cydnabod bod clybiau'n dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr ac ystyried a fyddai cymhellion ariannol bach yn briodol i gefnogi'r clybiau sydd â'r sesiynau hyfforddi iaith hyn; y nod cyffredinol yw datblygu dulliau ymarferol y gellir eu hehangu a'u rhannu â chlybiau eraill yn y dyfodol.
Gwella'r cymorth y mae'r cyrff llywodraethu cenedlaethol yn ei roi i glybiau lleol i ddefnyddio'r Gymraeg, gan fynd i'r afael â'r bylchau rhwng ymrwymiadau ar lefel genedlaethol a'r effaith ar lefel gymunedol	**Alinio ymrwymiadau cenedlaethol â chymorth ar lefel gymunedol:** Gweithio â chyrff llywodraethu a chlybiau lleol i gynnal archwiliad ar y gweithgareddau hyrwyddo'r Gymraeg sy'n bodoli eisoes, codi ymwybyddiaeth staff, ac ymgorffori ystyriaethau ynghylch y Gymraeg ym mhrosesau sefydliadol prif ffrwd – yn enwedig y rhai sy'n llunio chwaraeon cymunedol. **Creu fframweithiau cydnabyddiaeth i ysgogi newid ymddygiad:** Cyd-ddatblygu 'gwobr safonol' i ddathlu clybiau sy'n rhoi presenoldeb gweledol a llafar cryf i'r Gymraeg, a chyflwyno gwobr 'Arwyr Chwaraeon' i gydnabod gwirfoddolwyr neu glybiau sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at hyrwyddo'r Gymraeg mewn chwaraeon. **Datblygu arferion da y gellir eu hehangu a'u cyflwyno'n ehangach:** Defnyddio canfyddiadau'r corff cenedlaethol peilot i lunio arweiniad a modelau y gellir eu haddasu gan gyrff llywodraethu eraill yn y dyfodol, er mwyn cryfhau'r cymorth cyson ac ymarferol i'r Gymraeg y gellir ei roi.
Dylid cyfuno sawl dull er mwyn meithrin gwydnwch ymhlith siaradwyr presennol a chynyddu hyder a chymhelliant dysgwyr newydd.	**Datblygu hyfforddiant Ymwybyddiaeth laith ledled sectorau** Grymuso sefydliadau a mudiadau i weithredu mewn ffordd sy'n ymwybodol o ddiwylliant, yn cydymffurfio â gofynion perthnasol, ac yn cyd-fynd â nodau iaith cenedlaethol drwy rannu gwybodaeth am gyd-destun polisi, yn ogystal ag arwyddocâd hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol y Gymraeg. **Cynnal hyfforddiant ar hyder a gwydnwch ieithyddol** Sefydlu dulliau o feithrin hyder a gwydnwch ieithyddol ymhlith staff a sefydliadau cymunedol.

	Llunio adnoddau dysgu Cymraeg penodol i'r Sector Dylunio adnoddau iaith sy'n hygyrch ac yn ymarferol, gan sicrhau eu bod yn benodol i'r sector ac yn cyd-fynd ag anghenion y sefydliad. **Cynnal ymchwil ac arwain prosiectau Cymraeg sy'n canolbwyntio ar y gymuned** Cefnogi prosiectau sydd wedi'u gwreiddio yn y gymuned ac sy'n cryfhau'r dysgu ynghylch sut i ddatblygu rhwydweithiau a gweithgareddau cymdeithasol dwyieithog.

GWYBODAETH AM Y PROSIECT

Ymchwilwyr

Huw Lewis ac Owain Lewis (Prifysgol Aberystwyth), Cynog Prys a Rhian Hodges (Prifysgol Bangor)

Mewn cydweithrediad â:

Cyngor Sir Ynys Môn, Menter Môn, Clwb Rhwyfo Biwmares, Clwb Criced Porthaethwy, Comisiynydd y Gymraeg, Urdd Gobaith Cymru, Clwb Pêl-Picl Ynys Môn, Llywodraeth Cymru, Iaith Cyf, Môn Actif , Clwb Rygbi Llangefni, Gymnasteg Cymru / Clwb Gymnasteg Ynys Môn, Menter Iaith Gwynedd / Cymru, SEAS Accessibility Sailing, Partneriaeth Awyr Agored

Darllen pellach

Mae gwybodaeth bellach am Labordai Arloesi LPIP yn www.lpip.cymru

Rhagor o wybodaeth

Cyswllt: Huw Lewis- hhl@aber.ac.uk / Owain Lewis - owl14@aber.ac.uk

Mae'r ymchwil y sonnir amdano yn y Briff Polisi hwn wedi'i gynnal yn rhan o Cymru Wledig LPIP Rural Wales, sef Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol ar gyfer Cymru Wledig, wedi'i ariannu gan UKRI, sef corff Llywodraeth y DU ar gyfer cyllido ymchwil. Nod Cymru Wledig LPIP Rural Wales yw cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer llunio a gweithredu polisïau effeithiol yng Nghymru Wledig, archwilio a phrofi atebion arloesol i heriau polisi, a grymuso cymunedau i ddefnyddio ymchwil i fynd i'r afael â materion lleol, gan weithio tuag at economi lesiant gynhwysol a chynaliadwy yng Nghymru wledig. Caiff Cymru Wledig LPIP Rural Wales ei gydlynu gan Brifysgol Aberystwyth, mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymuned ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Gyda'n Gilydd dros Newid, Antur Cymru, Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), Represent Us Rural, Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, a Sgema. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.lpip.cymru, neu drwy gysylltu â lpip@aber.ac.uk.

Ariannwyd gan

UK Research and Innovation